Cyngor Sir Caerfyrddin

## Gweithgor Cynllunio Wrth Gefn

## CYLCH GWAITH

Y Pwrpas:

Darparu'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer cynllunio argyfwng a pharhad busnes ar gyfer pob gwasanaeth yn yr Awdurdod, drwy gyfnewid gwybodaeth a hyrwyddo arferion da.

Bydd y Grŵp yn:

Sicrhau bod Gweithdrefnau a Chynlluniau Argyfwng a Pharhad Busnes yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn.

Darparu fforwm aml-wasanaeth i rannu gweithdrefnau ac arferion gorau ar gyfer ymdrin â materion Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl.

Helpu i baratoi a chymryd rhan mewn ymarferion a hyfforddiant staff meysydd aml-wasanaeth i brofi Cynlluniau Meysydd Gwasanaeth a Chynlluniau Corfforaethol.

Goruchwylio a chytuno ar adroddiadau ôl-drafod ac asesu i ba raddau y mae'r gwersi a nodwyd yn cael eu dysgu

Goruchwylio ac asesu goblygiadau adroddiadau a chanllawiau Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes sy'n fewnol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol

Goruchwylio ac adolygu'r Cofrestrau Risg Corfforaethol ac Adrannol yn rheolaidd.

Amlder y Cyfarfodydd:

Cynhelir cyfarfodydd bob tri mis, ond os bydd gofyn yn benodol am gyfarfod gall unrhyw aelod sefydlog o'r Grŵp ofyn am gyfarfod.

Atebolrwydd

Mae Cofnodion y Gweithgor yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Rheoli Risg.

Mae Cofnodion y Grŵp Llywio yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Aelodaeth

Bydd yr aelodau fel a ganlyn:

Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth (Cadeirydd)

Rheolwr Argyfyngau Sifil, Lle a Seilwaith

Uwch-swyddog Risg

Hyrwyddwyr / Cynrychiolwyr Cynllunio Wrth Gefn Adrannol

Cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch

Cynrychiolydd Eiddo

Dylai cynrychiolaeth o bob adran fod ar lefel uwch briodol gyda chyfrifoldeb benodol am gydgysylltu Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes.

Gweinyddiaeth

Bydd Gweinyddiaeth ar gyfer y Grŵp yn cael ei darparu gan yr is-adran Rheoli Risg mewn cydweithrediad â Chadeirydd y Grŵp a'r is-adran Argyfyngau Sifil.

Bydd dogfennaeth ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp yn cael ei chadw yn y ffolderi perthnasol i sianel Teams y Gweithgor Rheoli Risg.

Adolygu

Bydd adolygiad o'r Cylch Gorchwyl yn cael ei gynnal gan y Grŵp bob blwyddyn.